Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Penodi Comisiynydd Plant Cymru

Dyddiad cau: 16:00, 28 Mehefin 2021

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Tudalen

Gwneud cais **1 - 6**

Atodiad A: Penodi Comisiynydd Plant Cymru **7 - 11**

Atodiad B: Y broses ddethol **12 - 17**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gomisiynydd Plant Cymru yn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru'n swydd unigryw sydd wedi'i chreu er mwyn sicrhau newid positif i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy weddnewid dealltwriaeth cymdeithas o bwysigrwydd hawliau plant a'i pharodrwydd i dderbyn hynny.

Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion ynghylch rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru, manyleb y person a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/, cliciwch ar swydd Comisiynydd Plant Cymru ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf i chi wneud cais am swydd drwy system ar-lein Llywodraeth Cymru, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru. Dim ond unwaith y mae angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd i chi weld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen i chi lanlwytho dau ddatganiad personol a'ch CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar lein.

Datganiadau personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Gofynnir i chi gyflwyno **dau ddatganiad personol** ar gyfer y penodiad hwn, un ar gyfer plant a phobl ifanc ac un ar gyfer oedolion. Bydd y ddau ddatganiad yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses benodi.

Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Yn eich datganiad personol ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd angen i chi ddarparu enghreifftiau manwl o hyd sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â phob un o'r meini prawf ond dylech ei ysgrifennu yn y fath fodd fel y gall plant a phobl ifanc ei ddeall yn hawdd. Efallai y byddwch hefyd am adlewyrchu'r tair blaenoriaeth ar gyfer y Comisiynydd nesaf a ddarperir gan blant a phobl ifanc ar dudalen 4.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na 2 dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon.

Geirdaon
Rhowch ddau enw cyswllt (cyflogwr a phersonol) y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn. Er mwyn cadw'r safonau uchaf o ran uniondeb a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau o'r Senedd na gweithwyr Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

Y broses benodi
Bydd y penodiad hwn yn cael ei wneud drwy broses penodiadau cyhoeddus, a bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ar wahanol gamau drwy gydol y broses yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000.

Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn pedwar cam yn ystod y broses benodi hon:

- Cam un: Cyn i'r penodiad hwn gael ei hysbysebu, cynhaliwyd dau weithdy gyda phlant a phobl ifanc i ofyn am eu barn ar y tri pheth sydd bwysicaf iddynt ar gyfer rôl y Comisiynydd Plant. Adlewyrchwyd eu hadborth wrth baratoi'r pecyn ymgeiswyr.

  Nodwyd mai'r tair flaenoriaeth ganlynol oedd y pwysicaf ar gyfer rôl Comisiynydd Plant Cymru:

  1. Natur ddeallgar;
  2. Y gallu i gynrychioli pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a sefyll dros eu hawliau; a
  3. Sgiliau cyfathrebu a gwrando rhagorol.

- Cam dau: Yn dilyn y dyddiad cau, caiff ceisiadau am y swydd hon eu hystyried gan banel o swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd yn asesu CVs a datganiadau personol yr ymgeiswyr. Bydd y panel hwn yn penderfynu pwy y mae'n credu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau a bydd yn cynhyrchu rhestr hir o ymgeiswyr i'w hargymell i'r Gweinidog, y panel penodi trawsbleidiol a phanel penodi pobl ifanc. Bydd y datganiadau personol gyfer plant a phobl ifanc a ysgrifennwyd gan yr ymgeiswyr sydd wedi'u rhestru'n llwyddiannus yn cael eu hystyried gan grŵp o blant a phobl ifanc a fydd yn gwneud argymhelliad o'u dewis ymgeiswyr i'r Gweinidog, y panel penodi trawsbleidiol a phanel y bobl ifanc.

- Cam tri: Yn dilyn didoli pellach o'r ymgeiswyr sydd wedi'u rhestru ar y rhestr hir gan y panel penodi trawsbleidiol, penderfynir ar restr fer o ymgeiswyr. Bydd argymhelliad y panel o'r ymgeiswyr y dylid eu cyfweld yn cael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog. Gwahoddir yr ymgeiswyr llwyddiannus i gam nesaf y broses recriwtio. Bydd hyn yn golygu bod ymgeiswyr yn cyflwyno i ddosbarth o blant ysgol. Bydd y pwnc yn cael ei nodi yn y llythyr gwahodd i gyfweliad. Bydd y plant yn gofyn cyfres o gwestiynau i'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ac wedyn yn rhoi adborth ysgrifenedig i'r panel penodi trawsbleidiol a phanel y bobl ifanc ar berfformiad pob ymgeisydd. Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu datblygu a'u gofyn gan y plant. Bydd y sesiwn hon yn cael ei ffilmio er mwyn ei dangos i'r ddau banel cyfweld.

- Cam pedwar: Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyfweld yn ffurfiol gan banel penodi trawsbleidiol a phanel pobl ifanc. Bydd y panel pobl ifanc yn cyflwyno eu hargymhelliad o'r ymgeisydd o'u dewis i'r panel penodi trawsbleidiol

a fydd yn ystyried yr argymhelliad hwn wrth benderfynu ar eu dewis nhw. Bydd y panel penodi trawsbleidiol yn gwneud argymhelliad i'r Prif Weinidog sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar yr ymgeisydd i benodi, yn amodol ar wrandawiad Pwyllgor Senedd Cymru.

Gweithgaredd	**Dyddiad**
Cyhoeddi'r hysbyseb	7 Mehefin 2021
Dyddiad cau	28 Mehefin 2021
Panel sifftio swyddogol yn llunio'r rhestr hir	w/c 5 Gorffennaf 2021
Plant a phobl ifanc yn sifftio'r datganiadau personol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc gan y rheini sydd ar y rhestr hir	w/c 12 Gorffennaf 2021
Sifft gan y panel penodi trawsbleidiol i lunio'r rhestr fer derfynol	w/c 6 Medi 2021
Ymgeiswyr y rhestr fer yn rhoi cyflwyniad i blant ysgol (byddant yn cael eu ffilmio er mwyn i'r panel penodi trawsbleidiol a phanel y bobl ifanc eu gweld)	w/c 1 Tachwedd 2021
Cyfweliadau gan banel y bobl ifanc	w/c 8 Tachwedd 2021
Cyfweliadau gan y panel penodi trawsbleidiol	w/c 8 Tachwedd 2021
Gwrandawiad Pwyllgor Senedd Cymru	Rhagfyr 2021
Penodi	Ionawr 2022
Ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn y swydd	20 Ebrill 2022 neu'n fuan wedyn

Datganiad amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Ceir rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus yma.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf

sylfaenol' yn golygu bod rhaid i chi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Gofynnir i chi nodi yn eich cais a hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru, cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Comisiynydd Plant Cymru, cysylltwch â Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Plant a Theuluoedd.

Ffôn: 0300 025 3424
E-bost: Karen.Cornish@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Atodiad A

Penodi Comisiynydd Plant Cymru

Cefndir Comisiynydd Plant Cymru

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gael Comisiynydd Plant annibynnol – esiampl a ddilynwyd gan wledydd eraill y DU.

Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant. Nodir cylch gwaith y Comisiynydd yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a ddiwygiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.

Mae hon yn rôl uchel ei phroffil sydd â phroffil sylweddol yn y cyfryngau ac yn gyhoeddus. Gwneir penodiadau gan y Prif Weinidog yn dilyn proses drylwyr sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, panel penodi o bobl ifanc a phanel penodi trawsbleidiol.

Ar hyn o bryd mae gan Swyddfa'r Comisiynydd fwy na 21 o staff cyfwerth ag amser llawn ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb o £1.579 miliwn y flwyddyn.

Mae cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru yn cwmpasu pob maes o bwerau datganoledig Senedd Cymru i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. I grynhoi, mae gan y Comisiynydd y pwerau canlynol:

- Y pŵer i adolygu effaith arfer swyddogaethau ar blant neu'r bwriad i arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus diffiniedig gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
- Y pŵer i adolygu a monitro pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer cwynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth cyrff cyhoeddus diffiniedig wrth ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.
- Y pŵer i archwilio achosion mewn perthynas â phlant unigol mewn rhai amgylchiadau.
- Y pŵer i roi cymorth i blentyn mewn rhai amgylchiadau.
- Y pŵer i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n ymwneud â'r Comisiynydd ac nad oes ganddynt y pŵer i weithredu ar eu rhan.

I gael gwybod mwy am bwerau'r Comisiynydd Plant, gweler yr ddogfen atodedig: Pwerau Comisiynydd Plant Cymru.

Disgrifiad o rôl Comisiynydd Plant Cymru

- Byddwch yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc hyd at 18 oed (hyd at 25 oed mewn rhai achosion) yng Nghymru. Dyma brif rôl y Comisiynydd, sydd wedi'i phennu mewn deddfwriaeth.

- Byddwch yn ysbrydoli pobl i sicrhau gwell canlyniadau i holl blant a phobl ifanc Cymru ym mhob maes polisi, deddfwriaeth, penderfyniadau ac arferion sy'n effeithio ar eu bywydau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

- Byddwch yn parhau i ysgogi trafodaeth a dadl genedlaethol ynghylch cael cymdeithas sy'n parchu plant a phobl ifanc ac sy'n cydnabod gwerth gwirioneddol cynnig cyfleoedd iddynt y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial unigol.

- Byddwch yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc drwy sefydlu a chynnal partneriaethau cryf a pherthynas bwerus gyda phobl a sefydliadau.

- Byddwch yn ystyried ac yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – siarter ryngwladol sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer plant a phobl ifanc lle bynnag y maent yn byw. Mae CCUHP yn sail i holl waith y Comisiynydd.

- Byddwch yn arwain y broses o ymgysylltu â chraffu ar y Llywodraeth a sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau ymatebol sy'n cael eu llywio gan syniadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc.

- Byddwch yn cyflawni swyddogaeth endid corfforaethol ac yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y sefydliad, gan sicrhau bod dulliau monitro ac adolygu cyfrifyddu ariannol tryloyw yn cael eu gweithredu'n barhaus.

- Byddwch yn arwain ac yn rheoli Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac yn sicrhau ei fod yn parhau'n sefydliad ar gyfer Cymru gyfan sy'n gryf, hyderus a chydnerth ac sy'n gweithio'n effeithiol fel tîm, gyda strwythurau llywodraethu a busnes cadarn, i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol.

Prif feysydd cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Effeithiolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd

- Datblygu a rhannu fel y bo'n briodol gweledigaeth strategol hirdymor a chynlluniau gwaith hirdymor y Comisiynydd a seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ac yn datblygu cynllun gwaith effeithiol i gyflawni ei gylch gwaith cyfreithiol.

- Gweithredu ar eich pen eich hun gydag uniondeb wrth gysylltu â chyrff a sefydliadau rheoledig, eu herio a'u cynghori[1].

[1] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2001/18/schedule

- Sicrhau bod dulliau yn eu lle i wneud archwiliadau annibynnol o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru sy'n cynnwys grŵp o gyfeillion beirniadol amrywiol i gynghori, cefnogi a herio'r Comisiynydd wrth gyflawni ei ddyletswyddau; a gweithio gyda Phwyllgorau perthnasol y Senedd i gynnal strwythur llywodraethu cadarn.

- Meithrin a chynnal diwylliant o berfformiad rhagorol a canlyniadau o safon o fewn Tîm y Comisiynydd Plant, gan ystyried ffyrdd newydd o weithio a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio gan gynnwys cefnogi timau gwasgaredig a'r rhai sy'n ymwneud â gwaith achos.

- Cynnal safonau uchel o allbynnau gan y sefydliad o ymatebion i ymgynghoriadau i adroddiadau.

- Cyflawni gofynion cyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd fel corff cyhoeddus, er enghraifft gofynion o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg.

- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r tîm noddi o fewn Llywodraeth Cymru.

Datblygu polisi ac ymateb sy'n seiliedig ar arferion gorau

- Adolygu'r ffordd y mae Senedd Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â plant a phobl ifanc.

- Gwneud ymchwiliadau, llunio adroddiadau ar faterion penodol a chyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru ynghylch gwaith Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar faterion perthnasol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

- Sicrhau fod y Llywodraeth a Sefydliadau yng Nghymru yn ymdrechu'n barhaus i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a lle nodir heriau, gweithio gyda'r sefydliadau hynny i ganfod atebion.

- Dylanwadu ar ddatblygiad polisi cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a monitro'r fframwaith ac effeithiolrwydd gweithredu'r polisi.

- Ystyried a gwneud sylwadau i Senedd Cymru, y Senedd Ieuenctid a Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau neu les plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cyfathrebu a gwella proffil hawliau plant ar y cyd

- Parhau i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a Swyddfa'r Comisiynydd Plant mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys ymgysylltu'n rhagweithiol â phlant a phobl ifanc ar draws Cymru.

- Sicrhau presenoldeb amlwg parhaus ar-lein gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo delweddau positif o blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan herio delweddau negyddol pan fyddant yn codi.

- Datblygu a chynnal perthynas effeithiol â'r cyfryngau.

Cyfranogi ac ymgysylltu

- Datblygu a chynnal dulliau creadigol a deniadol o sicrhau fod lleisiau a safbwyntiau plant a phobl ifanc yn llywio gwaith Swyddfa'r Comisiynydd a chynllun corfforaethol a chynllun gwaith blynyddol Comisiynydd Plant Cymru a'i Adroddiad Blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

- Ymrwymo i wrando ar blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu profiadau, eu tystiolaeth a'u safbwyntiau i ysgogi gweithredu a newid, gan adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes.

- Creu a darparu cyfleoedd arloesol i bant a phobl ifanc allu lleisio'u barn a'u safbwyntiau i Gomisiynydd yn ogystal â phobl a sefydliadau eraill.

Ymchwiliadau a chyngor

- Gweithredu fel ffynhonnell o gymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc (neu'r sawl sy'n gofalu amdanynt) sy'n credu neu'n canfod eu bod wedi cael eu trin mewn modd niweidiol, gan gynnwys achosion lle mae egwyddor ehangach yn y fantol.

- Defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei gasglu o ymchwiliadau, gwaith achos ac ystadegau llinellau cymorth yn bositif i ddylanwadu ar newid systemig.

Gwaith partneriaeth

- Cynghori a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol, preifat ac anstatudol.

- Gweithio gyda chyrff tebyg ynghylch materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, i sicrhau bod plant a phobl ifanc penodol yn gallu cael mynediad effeithiol i'w gwasanaethau.

- Datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda Chomisiynwyr Plant ac Ombwdsmyn yng ngwledydd eraill y DU a thramor, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau ymysg sefydliadau plant ac ieuenctid.

- Ymgysylltu'n rhagweithiol â Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar ei waith i fonitro gweithrediad CCUHP.

Manyleb y person ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru

Meini prawf hanfodol

Mae'r Prif Weinidog yn dymuno penodi unigolyn a all ddangos y canlynol:

- y gallu i ddangos profiad o ymgysylltu â chynrychioli safbwyntiau eraill, yn benodol arwain ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer unrhyw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a sefyll lan dros eu hawliau;

- natur ddeallgar a dealltwriaeth o'r heriau penodol o gynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc;

- sylfaen wybodaeth gadarn ac ymrwymiad i hybu hawliau plant;

- sgiliau dylanwadu ardderchog, yn cynnwys y gallu i wrando, cyfathrebu ac ennyn hyder ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid, o blant i bobl ifanc i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y lefel uchaf un;

- y gallu i fynegi materion cymhleth yn syml a chlir a chyflwyno tystiolaeth mewn modd clir a symbylol;

- barn annibynnol a'r gallu i ddadansoddi problemau cymhleth yn gyflym a nodi atebion posibl.

- yr hyder a'r gallu i godi llais ynghylch materion sy'n cael effaith ar blant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys y cyfryngau, y Llywodraeth a Senedd Cymru;

- profiad o arwain sefydliad neu uned benodol o fewn sefydliad mwy, gan gynnwys rheoli ariannol a rheoli pobl;

- hunan gymhelliant a'r gallu i fod yn rhyngweithiol, penderfynol, positif a chydnerth.

- y brwdfrydedd i fod yn llysgennad effeithiol i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

- gonestrwydd, hygrededd a sensitifrwydd proffesiynol sy'n cynnal hyder ac ymddiriedaeth pawb;

- gwybodaeth profedig o'r hinsawdd gwleidyddol yng Nghymru a'r sefyllfa ddeddfwriaethol o ran hawliau plant, a dealltwriaeth o sut y gall y Comisiynydd Plant weithredu'n effeithiol o fewn y cyd-destun hwn.

I gael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

Atodiad B

Y broses ddethol

Yr iaith Gymraeg
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol (o fewn blwyddyn). Os nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn siarad Cymraeg, mae angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl cael ei benodi i fod yn rhugl o fewn blwyddyn gyntaf y swydd, gyda chymorth swyddfa'r Comisiynydd.

Gall Swyddfa'r Comisiynydd wneud trefniadau tymor byr hyd nes y bydd gallu iaith y sawl a benodir yn gwella i'r lefel sydd ei hangen ar gyfer y swydd.

Felly, mae'r swydd hefyd yn agored i ymgeiswyr sy'n barod i ymrwymo i gyflawni rhuglder yn y Gymraeg i'r lefel ddynodedig o fewn amserlen benodedig resymol – yn yr achos hwn, blwyddyn.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Port Talbot
Ymrwymiad amser:	Amser llawn
Cyfnod y swydd:	Saith mlynedd
Tâl:	Telir £90,000 i £95,000 y flwyddyn i Gomisiynydd Plant Cymru.

Lleoliad y swydd
Bydd swyddfa'r Comisiynydd Plant yn adleoli i Bort Talbot yn 2021. Hon fydd y swyddfa barhaol. Mae angen teithio ledled Cymru fel rhan o'r rôl, er bod teithio a gweithio o'r swyddfa yn destun hyblygrwydd mewn ymateb i'r pandemig.

Cymhwystra
Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd yn unol ag Egwyddorion Nolan.

Mae rôl Comisiynydd Plant Cymru yn cynnwys cyswllt â phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae ymgeiswyr yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Telerau penodi
Bydd y llythyr penodi yn rhoi amlinelliad llawn o delerau ac amodau'r swydd a bydd yn seiliedig ar Delerau ac Amodau'r Gwasanaeth Sifil[2].

Hyd y penodiad
Mae'r penodiad am dymor o saith mlynedd na ellir ei adnewyddu.

Ymrwymiad amser
Mae'r swydd yn amser llawn, er y gellid ystyried hyblygrwydd o ran yr oriau gweithio. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi weithio'r oriau sydd eu hangen i gyflawni eich dyletswyddau'n effeithiol fel Comisiynydd.

[2] https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

Tâl
Bydd deiliad swydd Comisiynydd Plant Cymru yn cael cyflog rhwng £90,000 a £95,000 y flwyddyn.

Cymorth i bobl anabl
Lle bo'n briodol, gwneir pob ymdrech bosibl i alluogi Comisiynydd Plant Cymru i wneud ei ddyletswyddau'n effeithiol.

Y broses ddethol
Caiff y broses o benodi Comisiynydd Plant Cymru ei rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'u hymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith gan gynnwys penodi i gyrff cyhoeddus.

Croesawir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp, a byddwn yn sicrhau na chaiff unrhyw ymgeisydd sy'n gymwys i ymgymryd â swydd gyhoeddus ei drin yn llai ffafriol oherwydd oedran, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Cedwir at yr egwyddor o gystadleuaeth deg ac agored, a phenodir ar sail teilyngdod.

Dyddiad dechrau
Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn y swydd ar 20 Ebrill 2022.

Rhagor o wybodaeth ac ymholiadau
Os hoffech fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio a gwneud cais, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus neu os oes gennych ymholiadau cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus drwy anfon e-bost at penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael mwy o wybodaeth am Gomisiynydd Plant Cymru, gallwch fynd i'r wefan sef http://www.complantcymru.org.uk neu ffoniwch 01792 765600. I gael manylion y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chomisiynydd Plant Cymru, gallwch fynd i http://www.legislation.gov.uk/all?title=children%27s%20commissioner%20for%20wales.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i'w weld yma: http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents.

Ceisiadau
Dylid cyflwyno cais drwy lenwi'r ffurflen ar-lein. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd i Ymgeiswyr yn cynnig canllawiau manwl ynghylch llenwi'r ffurflenni cais a monitro.

Rydym yn gobeithio y cewch y broses ar-lein yn hawdd ei dilyn, ond rydym yn cydnabod na all pawb ei ddefnyddio oherwydd gofynion hygyrchedd unigol. Os na allwch gyflwyno cais ar lein, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus drwy anfon e-bost at penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru, a fydd yn gallu anfon copi o'r pecyn ymgeisio atoch ar ffurf arall.

Gwybodaeth bwysig ynghylch defnyddio'r system ymgeisio ar-lein
Wrth ddefnyddio'r system ymgeisio ar-lein, dylech ddarllen y "Cymorth a'r Cyfarwyddiadau" sy'n ymddangos fel dewis ar dudalen gyntaf y ffurflen gais wedi'r dudalen mewngofnodi. Mae'r cyfarwyddiadau yn datgan pwysigrwydd defnyddio'r

botwm “Cadw a Symud Ymlaen” ar waelod y dudalen er mwyn cadw unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei mewnbynnu.

Bydd hyn yn bwysig iawn pan fyddwch yn llenwi'r adran ynghylch "Tystiolaeth ynghylch Addasrwydd i'w Benodi". Mae’n syniad da clicio ar “Cadw a Symud Ymlaen” ar ôl cwblhau pob un o’r cwestiynau ar wahân yn yr adran hon i sicrhau na chollir unrhyw wybodaeth. Gallwch ddychwelyd i’r adran “Tystiolaeth o Addasrwydd i’w Benodi” ar ôl clicio “Cadw a Symud Ymlaen” trwy ddefnyddio’r ddewislen ar ochr chwith y dudalen.

Gair o rybudd – os byddwch yn clicio ar y botwm “Ailosod Tudalen” byddwch yn colli’r holl wybodaeth y byddwch wedi’i mewnbynnu ar ôl i chi glicio ar “Cadw a Symud Ymlaen”.

Y dyddiad cau a dyddiadau penderfyniadau allweddol
Dyddiad cau’r ceisiadau 16:00, **28 Mehefin 2021**.

Ni ystyrir ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn. Cewch eich hysbysu a fyddwch yn cael gwahoddiad i gyfweliad neu beidio o leiaf bythefnos cyn y cyfweliadau y disgwylir iddynt gael eu cynnal yr wythnos yn cychwyn 1 Tachwedd 2021 a 8 Tachwedd 2021.

Disgwylir penderfyniad Prif Weinidog Cymru ynghylch y penodiad hwn erbyn Ionawr 2022.

Gwrthdaro buddiannau
Wrth wneud cais, bydd gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â’ch rôl a’ch cyfrifoldebau fel Comisiynydd Plant Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i’r rôl yn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ei weld.

Diwydrwydd dyladwy
Bydd y tîm penodiadau cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy’n cael eu sifftio yn llwyddiannus ar gyfer cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu o angenrheidrwydd i chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a’r rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi mewn cyfweliad sy’n gysylltiedig ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yn: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-ofpublic-bodies

Y broses benodi
Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn

ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon. Caiff y sifft hon ei chynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel.

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiadau personol yn unig i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y cam hwn yn y broses benodi drwy ystyried y datganiadau personol a ysgrifennwyd ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod y cam rhestr hir a gwneud argymhelliad i'r panel penodi trawsbleidiol a phanel y bobl ifanc o'u dewis nhw o ymgeiswyr.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Hydref 2021 pwy fydd yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniad i blant a phobl ifanc ac i gael cyfweliad ym mis Tachwedd 2021. Bydd pwnc y cyflwyniad yn cael ei roi i'r ymgeiswyr a wahoddir i gyfweliad. Oherwydd pandemig y coronafeirws a chyfyngiadau posibl, ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau'n rhithiol, er y gallai hyn newid wrth i'r ymateb pandemig symud ymlaen. Byddwn yn sicrhau bod pob ymgeisydd sydd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad yn cael ei ddiweddaru ar y broses pan gaiff ei wahodd i gyfweliad.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel penodi trawsbleidiol yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ym manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad byddwn yn rhoi tair wythnos o rybudd i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser yn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan ganolfan benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, cewch eich gwahodd i roi cyflwyniad i ddosbarth o blant ysgol yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd. Gofynnir cyfres o gwestiynau i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer gan y plant a fydd yn rhoi adborth ysgrifenedig i'r panel penodi trawsbleidiol a phanel y bobl ifanc ar berfformiad pob ymgeisydd. Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu datblygu a'u gofyn gan y plant. Caiff y sesiwn hon ei ffilmio i'w dangos i'r ddau banel cyfweld.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, cynhelir cyfweliadau gyda'r panel trawsbleidiol a phanel y bobl ifanc yn ystod ail wythnos mis Tachwedd. Bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a nodir ar gyfer y swydd.

Bydd y panel penodi trawsbleidiol yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a bydd hefyd yn cynnwys Aelodau o'r Senedd. Bydd Uwch Aelod

Annibynnol o'r Panel hefyd yn rhan o'r panel yn ogystal ag Uwch Was Sifil fel sylwedydd.

Bydd yr ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Prif Weinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Prif Weinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gomisiynydd Plant Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais i gael eich penodi'n Gomisiynydd Plant Cymru, byddwch yn cael ei gwahodd i fynychu gwrandawiad gan Bwyllgor Senedd Cymru fel rhan o'r broses recriwtio. Mae swydd y Comisiynydd yn destun craffu cyn penodi gan Bwyllgor perthnasol y Senedd.

Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Weinidogion. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a gwirio bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus*. Gall y gwaith craffu hwn olygu bod y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ac yn ei adolygu. Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn penodi.

Cynhelir y gwrandawiadau'n gyhoeddus ac maent yn cynnwys y pwyllgor dethol yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Mae'r gwrandawiadau cyhoeddus hyn yn cael eu cynnal cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chynnal.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid ymgymryd â gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran am y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawiad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis y Gweinidog o ymgeisydd.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch

cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru. Gallwch hefyd ysgrifennu at: Office of the Commissioner for Public Appointments, G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ.